
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Rhifyn arbennig 15fed Tachwedd 2021




# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update

## 1 miliwn o frechiadau ... y stori hyd yma



**RHAGFYR 2020**
**Rhaglen frechu yn lansio**
**08/12/2020**

**IONAWR 2021**
Dug Caergrawnt, y tywysog Wiliam, yn diolch i'r Tîm Brechu Torfol.

Canolfannau Brechu Torforol yn cael eu gweithredu yn y Swyddfeydd Cyffredinol Glyn Ebwy , Canolfan Casnewydd a Chanolfan Hamdden Trecelyn.

**CHWEFROR 2021**
Cyrhaeddwyd y garreg filltir gyntaf, 150,105 o frechiadau wedi'u rhoi. Dechreuodd y gwaith o roi ail ddos.

**MAWRTH 2021**
Agor y clinig brechu cyntaf yng Nghymru sydd mewn mosg.

**EBRILL 2021**
Hyfforddi 1,000 o imiwnyddion. Diolchwyd i dimau milwrol am eu cefnogaeth.



**MAI 2021**
500,000 o frechiadau wedi'u rhoi. Sesiynau galw heibio yn dechrau.

**MEHEFIN 2021**
Pobl 18-30 oed yn dechrau derbyn eu gwahoddiadau.

**GORFFENNAF 2021**
800,000 o bobl wedi cael y brechiad cyntaf a'r ail.

**AWST 2021**
Pobl ifanc 16-17 oed yn cael cynnig brechiad. Goldie Lookin Chain yn ffilmio fideo cerddoriaeth yng Nghanolfan Casnewydd.

**MEDI 2021**
Canolfan Brechu Torfol Pontllanfraith yn agor, yn lle Trecelyn. Rhaglen atgyfnerthu yn dechrau.

**HYDREF 2021**
Clinigau 12-15 oed yn dechrau.

**TACHWEDD 2021**
**Miliwn o frechiadau wedi'u rhoi.**
**09/11/2021**



## 1 miliwn o frechiadau
## 1 million vaccinations

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
*Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.*

# 1 miliwn o frechiadau ... rhai dyddiadau ar y daith

## IONAWR 2021



### Cymorth Milwrol

Mae timau milwrol wedi cael eu dosbarthu i safleoedd brechu yn ardal ein Bwrdd Iechyd i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd gyda dosbarthu brechlynnau Covid-19.
Yn gweithio gyfochr â staff brechu Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd mae 12 personél dyletswyddau cyffredinol (RAF) sy'n cyflawni rolau nad ydyn y glinigol o fewn y rhaglen (megis croesawu a chynorthwyo cleifion) a tri brechwr (heb gofrestru, ond wedi'u hyfforddi'n llawn) o'r Fyddin.
Mae'r Bwrdd Iechyd yn hynod ddiolchgar i'n cydweithwyr milwrol, sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu brechlynnau.




### Diolch Brenhinol

Manteisiodd **Dug Caergrawnt, EI Uchelder Brenhinol y Tywysog William,** ar y cyfle i ddiolch i Dîm Brechu Torfol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yr wythnos hon, mewn galwad ffôn gydag Cyfarwyddwr y rhaglen, Mererid Bowley.

Cynrychiolodd Mererid Bowley, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, y Tîm Brechu Torfol ar yr alwad, lle rhoddodd ddiweddariadau i'r Dug ar lwyddiant y Rhaglen Brechu Torfol. Mynegodd Mererid ei diolch i'r tîm mawr o bobl y tu ôl i'r Rhaglen Frechu Dorfol, a dywedodd wrth y Dug "*Rydym yn ffodus bod gennym dîm anhygoel o staff, ac mae'r tîm yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl i frechu cyn gynted ac mor ddiogel â phosibl.*"

Canmolodd Mererid y 300 aelod o staff sydd wedi gwirfoddoli i weithio oriau ychwanegol ar nosweithiau ac ar benwythnosau, yn ogystal â diolch i'n partneriaid Awdurdod Lleol sydd hefyd wedi defnyddio staff i helpu'r rhaglen.

Roedd EI Uchelder Brenhinol y Tywysog William yn llawn canmoliaeth i Dîm Brechu Torfol y Bwrdd Iechyd, a daeth â'r alwad i ben wrth ddiolch iddynt. Dywedodd: "*Rydych chi'n gwneud gwaith gwych, pob un ohonoch. Rwyf eisiau llongyfarch pob un ohonoch yn fawr a gwn fod hyn wedi bod yn ymdrech enfawr i bob un ohonoch, er bod y cynllunio wedi dechrau'r hydref diwethaf. Mae wedi bod yn gamp enfawr ac yn her enfawr i gyflwyno hyn mewn Pandemig pan fydd pawb yn delio â phob math o heriau. Felly, llongyfarchiadau mawr i'ch tîm am gyflawni tasg mor fawr a throsglwyddwch fy nymuniadau gorau iddynt.*"

## CHWEFROR 2021

### Cydweithio



Un o elfennau allweddol llwyddiant cyflwyno rhaglen frechu mor enfawr yw gweithio gyda phartneriaid a'u cefnogaeth aruthrol.

Eglurodd Angharad Collins, Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen, eu bod wedi dod â 24 o wirfod-dolwyr i mewn, yn cynnwys cyfuniad o staff ac ymddiriedolwyr, sydd wedi dod oddi ar ffyrlo i gynorthwyo gyda'r rhaglen frechu. Mae eu cymorth yn y ganolfan frechu dorfol yng Nghwm-brân wedi bod yn amhrisiadwy. Mewn pythefnos yn unig, gwirfoddolwyd cyfanswm o 810 awr. Dywedodd Angharad "*Edrychwn ymlaen at barhau i gefnogi. Mae wedi bod yn brosiect gwych i fod yn rhan ohono*".

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
*Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.*

# 1 miliwn o frechiadau ...
# rhai dyddiadau ar y daith

## CHWEFROR 2021

**Yr wythnos hon, rydym wedi cyrraedd y garreg filltir gyntaf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, i frechu'r bobl hynny o fewn grwpiau blaenoriaeth 1-4 y JCVI. Bellach, mae cyfanswm o 150,105 o bobl ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd wedi derbyn eu dos cyntaf o'r brechlyn Covid-19.**



Dyma gyflawniad gwych, ac rydym yn falch iawn ohono a hoffem ddiolch i bawb a fynychodd eu hapwyntiad. Hefyd, hoffem ddiolch i'r holl staff sy'n brechu pobl ac sy'n rhedeg y clinigau brechu hyn mewn Meddygfeydd Meddyg Teulu a Chanolfannau Brechu Torfol, y Fyddin, a'r staff a gwirfoddolwyr sy'n cynllunio ac yn gweithio yn y cefndir i wireddu'r dasg anferthol hon.

Bellach, rydym wedi brechu 91.6% o bobl 75-79 oed a 91.4% o bobl 70 oed a hŷn.

Yr wythnos ddiwethaf, gweithiodd ein Nyrsys Ardal, Meddygon Teulu, unedau symudol a chydweithwyr Gofal Sylfaenol yn eithriadol o galed, ac maent yn parhau i frechu'r rheiny sy'n gaeth i'r tŷ ac sy'n gymwys yn unol â grwpiau blaenoriaeth y JCVI.

## Lleoliadau Gwaith Newydd mewn Canolfannau Brechu



Mae Abbie ac Alice yn fyfyrwyr nyrsio yng nghanol ail flwyddyn eu Gradd Nyrsio ym Mhrifysgol De Cymru, ac ar hyn o bryd maent yn cwblhau lleoliad gwaith unigryw iawn o fewn ein Rhaglen Brechu Torfol. Ar ôl cwblhau hyfforddiant llawn yn ein Canolfan Frechu Torfol yng Nghwmbrân, maent yn brechu cleifion mewnol mewn Ysbytai, fel rhan o'n Tîm Brechu Symudol.

## Brechwyr Tîm Caerffili





Llwyddodd dîm brechu Caerffili, sy'n gweithredu fel tri thîm o ddau, roi dros 400 o frechlynnau i bobl sy'n gaeth i'w cartref yng Nghaerffili. Roedd y timau yn cynnwys Sian Margetts, Allison Morris a Sharon Griffin, gyda chefnogaeth nyrsys ardal dan hyfforddiant. Roedd y myfyrwyr yn gymorth gwych, â'r tîm yn eu canmol i'r cymylau. Mae'r tîm yn hynod ddiolchgar i'r arweinwyr addysg myfyrwyr a phawb sydd ynghlwm.






**Celfwaith o Sylfaenydd y GIG, Aneurin Bevan, gan Nathan Wyburn. Mae'r portread wedi'i greu gan ddefnyddio deunydd pacio brechlyn wedi'i ail-gylchu ac yn cael ei arddangos yng Nghanolfan Brechu Torfol Cwmbrân.**



Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
*Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.*

# 1 miliwn o frechiadau ... rhai dyddiadau ar y daith

## MAWRTH 2021

### Amrywiaeth enfawr o arbenigeddau



Rydym yn hynod ffodus o gael arbenigwyr iechyd o amrywiaeth eang o arbenigeddau yn gweithio yn ein Canolfannau Brechu Torfol. Mae Catherine yn Hylenydd Deintyddol o Ganolfan Ddeintyddol ac Arbenigol Mayhill yn Nhrefynwy, ac ar hyn o bryd mae'n dosbarthu brechlynnau Covid-19 yn ein Canolfan Brechu Torfol yng Nghwmbrân. Dywedodd *"Rwy'n teimlo'n hynod freintiedig o gael bod yn rhan o'r Rhaglen Brechu Torfol, ac mae'n gwbl wahanol i'm rôl arferol. Mae gweld cymaint o aelodau'r cyhoedd yn ddiolchgar o gael eu brechlynnau yn gwneud y gwaith yn werth chweil."*




### Clinig brechu cyntaf Cymru mewn mosg yn agor yng Nghasnewydd

Mae mosg Jamia yng Nghasnewydd wedi agor ei ddrysau fel canolfan frechu Covid-19, gymunedol ar ddydd Mawrth (23 Mawrth).

Y mosg oedd y cyntaf yng Nghymru i gael ei ddefnyddio i weinyddu'r brechlyn. Roedd y clinig galw heibio i'r rheiny dros 60 oed yn gwasanaethu'r gymuned gyfan, ond gobeithiwyd y byddai'n helpu i oresgyn unrhyw betruster i gael y brechlyn ymhlith poblogaeth Fwslimaidd y ddinas.

Tawelodd Dr Kasim Ramzen, meddyg teulu lleol ac aelod o Muslim Doctors Cymru, feddyliau cleifion bod y brechlyn yn halal ac na fyddai ei gael yn torri'u hympryd Ramadan. Dywedodd fod cael y clinig yn y mosg yn helpu i frechu pobl "nad ydym wedi gallu cael mynediad atynt erioed o'r blaen".

## EBRILL 2021



### Diolch o galon

Yr wythnos hon oedd yr wythnos olaf i rai o'n timau Milwrol gynorthwyo yn ein Canolfannau Brechu. Hoffem ddiolch yn fawr iawn iddynt am fod yn rhan o'r tîm brechu ac am eu holl gymorth a chefnogaeth.





## MAI 2021

### Llwyddiant y Clinig Brechu Galw Heibio

Ddydd Sadwrn 22 Mai, cynaliasom sesiwn frechu pop-yp yn y Tŷ Cymunedol, Ffordd Eton, Casnewydd, yn targedu pobl dros 40 oed nad oedd wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn. Bu'r sesiwn hon yn llwyddiant ysgubol gyda 135 o bobl o gymunedau gwahanol yn mynychu i gael eu brechiad. Llwyddasom hefyd i drefnu apwyntiadau i unrhyw un a oedd dan 40 oed ac a oedd yn gallu mynychu ein canolfan frechu yng Nghanolfan Casnewydd.

## MEHEFIN 2021

### Yn galw ar unigolion 18-30 oed!

Diolch am eich amynedd. Rydych nawr yn flaenoriaeth i ni, ac ar flaen y ciw i dderbyn eich Brechlyn Covid-19 am ddim gan y GIG.

# 1 miliwn o frechiadau ... rhai dyddiadau ar y daith

**GORFFENAF 2021**

## Ddim yn gadael unrhyw un ar ôl...




Mae ymgyrch brechu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gyda chyfraddau brechu yn gyfartal â'r gorau yn y byd. Wedi dweud hynny, mae aelodau o'n cymuned sy'n parhau i'w chael hi'n anodd ceisio lefelau digonol o ofal iechyd. Diolch byth, mae asiantaethau'r 3ydd sector yn estyn allan ac yn cefnogi'r unigolion hyn i ymgysylltu â'n gwasanaethau.

Yn ddiweddar, cawsom y fraint o weithio mewn partneriaeth ag asiantaeth bartner o'r fath - The Wallich, sy'n gweithio'n ddiflinio i gefnogi pobl ddigartref. Mae eu cefnogaeth yn cynorthwyo'r tîm brechu i frechu'r dinasyddion hyn wedi bod yn amhrisiadwy. Mae'r tîm yn Wallich wedi rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau arbenigol ac wedi cluno swyddogion brechu ym 'Mws The Wallich' i ddarparu brechlynnau lle bynnag mae galw amdanynt. Hoffem ddiolch i dîm The Wallich, nid yn unig am y gwaith hanfodol a wnânt bob dydd, ond hefyd am eu cefnogaeth yn brechu'r bobl hynny sy'n elwa fwyaf ohono.



## Disgyblion Trecelyn yn diolch i staff



Mae grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 9 o Ysgol Gyfun Trecelyn wedi ffurfio grŵp printio 3D ar ôl ysgol fel rhan o'u Maes Dysgu Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Y prosiect a ddewiswyd gan y disgyblion oedd dylunio a chynhyrchu anrhegion diolch i'r staff sy'n gweithio yng Nghanolfan Frechu Trecelyn yn y ganolfan hamdden sydd wedi cysylltu â'r ysgol. Fe aethant i'r grŵp ar ôl ysgol am sawl wythnos i greu dyluniadau, a'u cysodi erbyn diwedd y tymor. Cynhyrchwyd gerdyn diolch hefyd i'w gyflwyno gyda'r anrheg.




Y dyluniad olaf oedd swigen sgwrsio gyda "Diolch" mewn llythrennau ar ffurf cerfwedd. Rhoddwyd cynnig ar sawl dyluniad oedd weithiau'n gymhleth, a theimlwyd mai'r neges syml hon oeddynt eisiau ei chyfleu. Dosbarthwyd yr anrhegion i'r staff yn y ganolfan frechu yn ystod wythnos olaf y tymor.

Roedd y staff yn ddiolchgar iawn am garedigrwydd y disgyblion a'u hanrhegion.

# 1 miliwn o frechiadau ... rhai dyddiadau ar y daith

## AWST 2021



### Hwyl fawr Trecelyn... helô Pontllanfraith!

Mae'r ganolfan brechu torfol yn cau yng Nghalfon Hamdden Trecelyn yr wythnos hon ac yn symud i Ganolfan Hamdden Pontllanfraith. Bydd clinigau cleifion yn ailddechrau ar 2 Medi 2021.

Ers dechrau yng nghanolfan brechu torfol Trecelyn ar 30 Ionawr 2021, mae dros 157,000 o frechlynnau wedi cael eu rhoi, sy'n gyflawniad aruthrol ac yn dyst i ymdrechion y rheiny ynghlwm. Mae'r ganolfan brechu torfol wedi gweithio'd dda iawn ac wedi cael derbyniad da gan y bobl hynny sydd wedi mynychu. Rydym yn hynod ddiolchgar i staff y ganolfan hamdden, sydd wedi bod yn allweddol wrth gefnogi'r gweithrediad llyfn yn Nhrecelyn gan gyflawni dyletswyddau maes parcio a chwrdd a chyfarch, ac i Ysgol Trecelyn a roddodd y cyfle i ni ddefnyddio'r neuadd chwaraeon ar gyfer y rhaglen brechu.

Edrychwn ymlaen at barhau ein partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrth sefydlu'r ganolfan brechu torfol ym Mhontllanfraith.

### Gweithio mewn partneriaeth gyda GDAS

**O fewn ein hymdrech i ddarparu brechlyn COVID-19 i bobl sy'n ddigartref, sy'n fregus ac yn anodd eu cyrraedd o fewn ardal ein Bwrdd Iechyd, roedd y GDAS yn rhan annatod o'r cydweithio hwn. Mae GDAS wedi darparu eu canolfannau ar draws Gwent, Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen, lle gallai'r tîm brechu ddarparu a rhoi'r brechlyn.**

Mae defnyddwyr y gwasanaeth yn ymddiried yn GDAS. Roeddynt yn teimlo'n gyfforddus o adnabod wynebau tîm GDAS, ac mae'r lleoliad yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch iddynt, rhywle lle maen nhw'n cael eu croesawu a'u derbyn.

Drwy gynnal clinigau galw heibio, rydym wedi gallu brechu merched mewn llochesi, pobl ddigartref, a phobl gyda gorbryder niweidiol, anhwylderau iechyd meddwl sy'n nerfus iawn am fynd i apwyntiad, ac mae staff hyfforddedig wedi gallu egluro ac ateb unrhyw ofnau, er mwyn gallu eu brechu nhw.

Mae GDAS a'r tîm brechu wedi gweithio gyda'r gwasanaeth prawf, sydd wedi cyfeirio y rhai mewn angen atom ni. Mae cysylltiadau wedi'u gwneud gyda lletyau, llochesi, sefydliadau eraill, megis MIND, cynghorau lleol a thai.

Mae Tîm Allgymorth Pendant GDAS hefyd wedi bod yn ganolog wrth ymwneud â'r rhai yn y Podiau neu ar strydoedd Casnewydd a cherddech gyda nhw i'r clinig, tra bod gweddill staff GDAS wedi defnyddio'r dull o weithio trwy eu llwyth achosion i hysbysu defnyddwyr gwasanaeth am y clinigau sy'n cael eu cynnal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Hoffem estyn ein diolch i dîm GDAS sef Georgina, Kate, Rondine a Martin. Maen nhw wedi agor drysau i ni, wedi ein croesawu a rhoi cyfle i ni wasanaethau'r bobl sydd wedi galw arnom ni ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.




## MEDI 2021

**Rhaglen Atgyfnerthu Hydref Covid-19:**
Ar ddydd Mawrth 14 Medi, argymhellodd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) y dylid cynnig trydydd dos o frechlyn atgyfnerthu COVID-19 i unigolion cymwys a gafodd frechiad yn ystod Cam 1 y rhaglen frechu COVID-19 (grwpiau blaenoriaeth 1-9) **gyda chyfnod o o leiaf 6 mis ar ôl yr 2ail ddos.** Argymhellir rhoi brechlyn mRNA (Pfizer-BioNTech neu Moderna) waeth pa frechlyn a roddwyd fel dos cyntaf.

# 1 miliwn o frechiadau ... rhai dyddiadau ar y daith

## HYDREF 2021

### Ein Tîm Brechu Symudol

Mae ein timau symudol yn parhau i gynnig brechiadau atgyfnerthu Covid-19 i breswylwyr mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn a'u gofalwyr ledled Gwent. Rydym wedi cynnig brechiadau atgyfnerthu mewn 69 o gartrefi gofal i oedolion hŷn yn ystod tair wythnos gyntaf y rhaglen atgyfnerthu.

Dywedodd Marjorie Browning, 96 oed, sy'n byw yng Nghartref Gofal Fields, "Rwy'n lwcus iawn i fyw'n ddiogel drwy bandemig Covid-19 gyda'r cariad a'r gofal maent yn ei roi yng Nghartref Gofal Fields. Maent wedi rhoi sylw gofalus i olchi dwylo a gwisgo masgiau a ffedogau. Rydym yn cael digonedd o awyr iach ac rydym i gyd wedi cael ein brechu. Rwy'n teimlo'n ddiogel nawr fy mod wedi cael fy mrechiad atgyfnerthu, ac rwy'n annog pawb i wneud yr un fath."



### 12 i 15 oed

Gall Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gadarnhau bod pob plentyn 12 i 15 oed wedi cael cynnig appwyntiad Brechiad Covid-19 mewn clinig erbyn 26 Hydref 2021.

## TACHWEDD 2021

### 9 Tachwedd 2021

**Dyma Lesley a Helen – derbyniwr ac imiwnyddwr y MILIYNFED dos o'r brechlyn COVID-19! Daeth Lesley, 85, i Stadiwm Cwmbrân am ei bigiad atgyfnerthu gyda'i ferch. Roedd yr Uwch Nyrs, Helen, wrth ei bodd o roi'r miliynfed dos i Lesley.**



Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

GIG CYMRU
NHS WALES

# Diolch!
# Thank you!



## 1 miliwn o frechiadau
## 1 million vaccinations